 - 12.1.3 The Strategy is part of ensuring consistency of approach in determining the language requirements of posts
 - 12.1.4 The emphasis placed on staff training, development and support will be advantageous to staff in enhancing their skills and competitiveness in the wider labour market
 - 12.1.5 The emphasis is on forward planning for the acquisition of the necessary skills gradually – not sweeping change.

13. Policy Review

- 13.1 All policies and procedures which form the basis of a SAPPO, will be reviewed on a pre-determined basis. This will be the responsibility of the Head of the Department responsible for the Order, and conducted after every 1, 2 or 3 years, depending on the importance of the document, from the date of issue or amendment.
- 13.2 This Order will be reviewed annually.

Simon A Smith
Chief Fire Officer

ALTE Language Skills Framework

LEVELS	ALTE Work Typical Abilities			ALTE Overall General Ability		
	Listening/Speaking	Reading	Writing	Listening/Speaking	Reading	Writing
A1 ALTE Breakthrough level	CAN take and pass on simple messages of a routine kind, such as 'Friday meeting 10 am'.	CAN understand short reports or product descriptions on familiar matters, if these are expressed in simple language and the contents are predictable.	CAN write a simple routine request to a colleague, such as 'Can I have 20X please?'	CAN understand basic instructions or take part in a basic factual conversation on a predictable topic.	CAN understand basic notices, instructions or information.	CAN complete basic forms, and write notes including times, dates and places.
A2 Level 1	CAN state simple requirements within own job area, such as 'I want to order 25 of...'	CAN understand most short reports or manuals of a predictable nature within his/her own area of expertise, provided enough time is given.	CAN write a short, comprehensive note of request to a colleague or a known contact in another company.	CAN express simple opinions or requirements in a familiar context.	CAN understand straightforward information within a known area, such as on products and signs and simple textbooks or reports on familiar matters.	CAN complete forms and write short simple letters or postcards related to personal information.
B1 Level 2	CAN offer advice to clients within own job area on simple matters.	CAN understand the general meaning of non-routine letters and theoretical articles within own work area.	CAN make reasonably accurate notes at a meeting or seminar where the subject matter is familiar and predictable.	CAN express opinions on abstract/cultural matters in a limited way or offer advice within a known area, and understand instructions or public announcements.	CAN understand routine information and articles, and the general meaning of non-routine information within a familiar area.	CAN write letters or make notes on familiar or predictable matters.
B2 Level 3	CAN take and pass on most messages that are likely to require attention during a normal working day.	CAN understand most correspondence, reports and factual product literature he/she is likely to come across.	CAN deal with all routine requests for goods or services.	CAN follow or give a talk on a familiar topic or keep up a conversation on a fairly wide range of topics.	CAN scan texts for relevant information, and understand detailed instructions or advice.	CAN make notes while someone is talking or write a letter including non-standard requests.
C1 Level 4	CAN contribute effectively to meetings and seminars within own area of work and argue for or against a case.	CAN understand correspondence expressed in non-standard language.	CAN handle a wide range of routine and non-routine situations in which professional services are requested from colleague or external contacts.	CAN contribute effectively to meetings and seminars within own area of work or keep up a casual conversation with a good degree of fluency, coping with abstract expressions.	CAN read quickly enough to cope with an academic course, to read the media for information or to understand non-standard correspondence.	CAN prepare/draft professional correspondence, take reasonably accurate notes in meetings or write an essay which shows an ability to communicate.
C2 Level 5	CAN advise on/handle complex delicate or contentious issues, such as legal or financial matters, to the extent that he/she has the necessary specialist knowledge.	CAN understand reports and articles likely to be encountered during his/her work, including complex ideas expressed in complex language.	CAN make full and accurate notes and continue to participate in a meeting or seminar.	CAN advise on or talk about complex or sensitive issues, understanding colloquial references and dealing confidently with hostile questions.	CAN understand documents, correspondence and reports, including the finer points of complex texts.	CAN write letters on any subject and full notes of meetings or seminars with good expression and accuracy.

ATODIAD 3 – DATGANIADAU I'R WASG

I'w ryddhau ar unwaith – Dydd Gwener 7^{fed} Awst 2009

Y Gwasanaeth Tân ac Achub yn gwobrwyo ymroddiad i'r Iaith Gymraeg

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi cydnabod dau aelod o'i staff am eu hymroddiad arbennig i'r iaith Gymraeg ac wedi cyflwyno gwobrau iddynt ar faes yr Eisteddfod Genedlaethol yn y Bala heddiw (Dydd Gwener 7^{fed} Awst).

Glyn Morris, diffoddwr tân gweithredol yng Ngorsaf Dân Gymunedol y Rhyl, enillodd y wobr am 'Gyfraniad i'r Iaith Gymraeg' ac Antje Erler, cogydd yng ngorsaf dân Caernarfon enillodd y bleidlais fel 'Dysgwr y Flwyddyn' gyda'r gwasanaeth tân ac achub. Enwebwyd y ddau aelod o staff am eu gwobrau gan eu cydweithwyr.

Ers iddo gychwyn ei yrfa yng Ngorsaf Dân Wrecsam yn ôl yn 1986, mae Glyn wedi annog defnyddio'r Gymraeg yn y gwasanaeth tân ac achub. Fel diffoddwr tân yn Wrecsam, trefnodd gwrs Dysgu Cymraeg WLPAN ar gyfer ei gyd ddiffoddwyr tân, fel y gallent ddysgu a gwella eu sgiliau yn y Gymraeg. Mae darparu addysg diogelwch tân yn rhan hanfodol o ddyletswydd diffoddwr tân ac mae Glyn wedi gweithio'n gydwybodol er mwyn darparu addysg diogelwch tân i blant yn yr ardaloedd y Rhyl a Phrestatyn drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hefyd yn 'hyrwyddwr' y Gymraeg yn y gweithle ac mae bellach yn cynorthwyo ei gydweithwyr i ennill y cymhwyster Cyflwyniad i'r Gymraeg (Lefel 1) sy'n angenrheidiol ar gyfer pob aelod newydd o staff ac sy'n cael ei annog ymysg aelodau parod o staff fel rhan o Gynllun Iaith Gymraeg Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru.

Mae Glyn yn byw ym Mhrestatyn gyda'i wraig a'i ddau blentyn. Yn ogystal â'r tlws, cyflwynwyd tocyn anrheg iddo werth £30, wedi ei gyflwyno'n garedig iawn gan Blas ar Fwyd, Llanrwst.

Pan gyflwynwyd ei wobr iddo, fe ddywedodd Glyn: "Rydw i'n falch iawn fy mod wedi ennill gan fy mos yn teimlo'n gryf y dylid annog yr iaith Gymraeg ym mhob agwedd ar fywyd Cymreig. Rydw i'n llwyr gefnogi'r Cynllun Iaith sydd wedi ei fabwysiadu gan y gwasanaeth tân ac achub gan ei fod yn rhoi'r cyfle i bob aelod o staff gael dysgu'r Gymraeg, bod yn ymwybodol o ddiwylliant Cymraeg a bod yn gwrtais gyda'r iaith. Rydw i'n mwynhau cefnogi cydweithwyr yn eu hymdrechion i ddysgu Cymraeg fel y gallant hwy gynnig gwir ddewis o iaith i drigolion Gogledd Cymru fel y gallant dderbyn gwasanaeth yn yr iaith y maent yn teimlo fwyaf cyfforddus yn ei siarad."

Mae Antje Erler yn dod yn wreiddiol o'r Almaen, ac ers iddi symud i Gymru, mae wedi gwneud ymdrech fawr i ddysgu Cymraeg er mwyn iddi allu ymgartrefu yn ei chymuned ac yn ei swydd yng Ngorsaf Dân Caernarfon. Mae wedi mynychu dosbarthiadau Cymraeg yn lleol yn ogystal â llwyddo ym mhrawf Lefel 1 Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn ddiweddar heb drafferth o gwbl.

Mae Antje yn byw yng Ngwm y Glo, Caernarfon gyda'i phartner a'u dau o blant. Yn ogystal â'r tlws, cyflwynwyd tocyn anrheg iddi werth £30, wedi ei gyflwyno'n garedig iawn gan Dafarn y Black Boy, Caernarfon.

Dywedodd Antje: "Mae ennill y wobr hon yn anrhydedd fawr i mi gan fod Gogledd Cymru yn ail gartref i mi a Chymraeg yw fy nhrydedd iaith ar ôl Almaeneg a Saesneg. Roedd hi'n sialens gan

nad yw dysgu'r Gymraeg yn hawdd, ond roedd bod yn rhugl mewn Almaeneg yn fy helpu gyda'r ynganu. Rwyf wedi ceisio gwella fy Nghymraeg rhyw ychydig bob dydd drwy ddysgu geiriau newydd a chychwyn sgwrs gyda chydweithwyr. Mae nifer o'r staff yma yng Nghaernarfon yn siarad Cymraeg fel eu hiaith gyntaf felly roeddwn yn teimlo ei bod yn bwysig iawn fy mod yn gallu gwneini eu bwyd a rhoi gwasanaeth iddynt yn eu hiaith eu hunain."

Dywedodd Colin Hanks, y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol: "Yng Ngogledd Cymru, rydym yn byw mewn cymuned ddwyieithog ac rydym ni fel gwasanaeth yn teimlo ei bod yn hynod bwysig fod cynifer o'n staff â phosibl yn gallu sgwrsio gyda thrigolion yn eu dewis iaith.

"Roeddem yn cytuno'n llwyr gydag enwebwyr y gwobrau hyn fod Glyn ac Antje wedi dangos ymroddiad mawr i ddysgu a hyrwyddo'r iaith ac wedi dangos penderfyniad i ddefnyddio'r Gymraeg ac annog eraill i ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg yn y gweithle – llongyfarchiadau mawr a da iawn i'r ddau ohonynt."

I'w ryddhau ar unwaith – Dydd Mawrth 22 Medi, 2009

Y Gwasanaeth Tân ac Achub yn addo parhau i fod ar dân dros y Gymraeg

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi bod yn gwneud cynnydd ardderchog yn ei ymroddiad i gyflwyno gwasanaethau dwyieithog i'r cyhoedd a chynnig gwir ddewis o iaith i bobl yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Bellach, mae'r gwasanaeth tân ac achub yn awyddus i glywed barn pobl ar ei gynlluniau i wella ar hyn i'r dyfodol.

Mae drafft y Cynllun Iaith Gymraeg ar gyfer y tair blynedd nesaf yn egluro sut y bydd y gwasanaeth yn parhau i gadw at yr egwyddor y bydd, wrth gyflawni ei waith cyhoeddus yng Nghymru, yn trin y Gymraeg a'r Saesneg ar sail cydraddoldeb.

Eglura'r Prif Swyddog Tân Cynorthwyol, Colin Hanks: "Dyma ein trydydd Cynllun Iaith Gymraeg a hwnnw'n ddatblygiad o'r ddau gynllun blaenorol a gyhoeddwyd gennym ym 1999 ac yn 2006.

"Byddem yn gwerthfawrogi eich barn ar y cynllun diwygiedig hwn sy'n manylu ar y ffordd y bwriadwn wella'r gwasanaethau dwyieithog a gynigiwn i'r cyhoedd yng Nghymru.

"Rydym wedi bod yn gweithio'n galed er mwyn darparu gwasanaethau cyfartal yn y Gymraeg dros y tair blynedd diwethaf. Llwyddwyd i gyrraedd cerrig milltir sylweddol, megis cyflwyno profion iaith syml ar gyfer recriwtiaid newydd a'r rheiny sy'n ceisio am ddyrchafiad, a safle mewnrwyd Cymraeg ar gyfer staff, ac mae proffil y Gymraeg yn ein gwasanaeth tân ac achub wedi ei godi'n sylweddol.

"Dros y tair blynedd nesaf rydym yn ymrwymo i ddatblygu ymhellach ar yr hyn yr ydym eisoes wedi ei gyflawni a sefydlu sylfaeni cryf ar gyfer dwyieithrwydd fydd yn parhau i weld gwelliannau graddol dros y blynyddoedd sydd i ddod."

Gall y cyhoedd ddod i wybod mwy drwy fynd i'n gwefan www.nwales-fireservice.org.uk neu wneud cais am gopi drwy gysylltu â Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru ar 01745 535285 - gwahoddir pobl i ymateb i'r ymgynghoriad erbyn y dyddiad cau ar ddydd Gwener 20fed Tachwedd 2009.

Y Gymraeg yn gadarn ar agenda Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn dweud y bydd yn sicrhau fod y Gymraeg yn parhau i fod yn gadarn ar ei agenda - a'r wythnos hon, derbyniwyd sêl bendith Bwrdd yr Iaith ar yr union gynlluniau y bwriedir eu defnyddio i gyflawni hyn.

Mae'r gwasanaeth tân ac achub wedi gwneud cynnydd gwych yn ei ymroddiad i gyflwyno gwasanaethau dwyieithog i'r cyhoedd a chynnig gwir ddewis o iaith i bobl, y Gymraeg neu'r Saesneg, a bellach mae'n awyddus i sicrhau fod y gwelliant yn parhau i'r dyfodol.

Mae'r Cynllun Iaith ar gyfer y tair blynedd nesaf yn nodi sut y bydd y gwasanaeth tân ac achub yn parhau i lynu at yr egwyddor y bydd, wrth gyflawni gwaith yn y sector cyhoeddus yng Nghymru, yn trin yr iaith Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal.

Eglura'r Prif Swyddog Tân Cynorthwyol, Colin Hanks: "Dyma ein trydydd Cynllun Iaith Gymraeg sy'n ddatblygiad o'r ddau gynllun blaenorol a gyhoeddwyd ym 1999 ac yn 2006.

"Mae'r cynllun diwygiedig hwn yn nodi sut y bwriadwn barhau i wella'r gwasanaethau dwyieithog yr ydym yn eu cynnig yng Nghymru, a chafodd y cyhoedd gyfle i ddweud wrthym beth oedd eu barn hwy am ein cynlluniau.

"Rydym wedi bod yn gweithio tuag at ddarparu gwasanaethau cyfartal yn y Gymraeg dros y tair blynedd diwethaf. Mae cerrig milltir arwyddocaol wedi eu nodi, megis cyflwyno profion Cymraeg sylfaenol ar gyfer rhai sy'n cael eu penodi o'r newydd a'r rhai sy'n ceisio am ddyrchafiad, a mewnrwyd Cymraeg ar gyfer staff, ac mae proffil yr iaith Gymraeg wedi ei godi'n sylweddol yn ein gwasanaeth tân ac achub.

"Dros y tair blynedd nesaf rydym yn ymrwymo i ddatblygu ymhellach ar yr hyn yr ydym eisoes wedi ei gyflawni a sefydlu sylfaen gref ar gyfer dwyieithrwydd fydd yn parhau i wella'n raddol yn y blynyddoedd sydd i ddod."

Dyweddodd Dylan Jones, Swyddog Datblygu gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg: "Mae'n bleser gen i gadarnhau fod Bwrdd yr Iaith Gymraeg wedi cymeradwyo Cynllun Iaith Gymraeg diwygiedig Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru - dymunwn yn dda i'r Gwasanaeth gyda'r gwaith o roi'r cynllun ar waith ac edrychwn ymlaen at gael cydweithio gyda staff y gwasanaeth i hyrwyddo'r iaith."

Gellir cael copi o'r cynllun diwygiedig drwy logio ar y wefan www.nwales-fireservice.org.uk .

I'w ryddhau ar unwaith – Dydd Llun 8^{fed} Mawrth 2010

Seremoni Gwobrwyo'r Gymuned

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi cynnal pedwaredd Seremoni Gwobrwyo'r Gymuned ddydd Gwener 5^{ed} Mawrth yng Ngwesty St George, Llandudno. Dyfeisiwyd y seremoni er mwyn cydnabod aelodau o staff a'r gymuned sydd wedi gweithio mor galed er mwyn gwella diogelwch cymunedol yng Ngogledd Cymru.

Rhoddwyd y Wobr Diogelwch Cymunedol i dri unigolyn sydd wedi gwasanaethu am dros 35 mlynedd.

Rhoddwyd y wobwr am gyfraniad arbennig i elusen neu elusennau i unigolyn sydd wedi gweithio'n ddiflino drwy gydol y flwyddyn i godi arian, ac wedi rhoi cryn dipyn o'i amser ei hun yn yr ymdrech i helpu eraill.

Enillydd y wobwr eleni oedd Nigel Sephton o Orsaf Dân Glannau Dyfrdwy. Mae Nigel wedi ymwneud ag Elusen y Diffoddwyr Tân ers sawl blwyddyn ac ef bellach yw Ysgrifennydd yr Elusen yng Ngogledd Cymru.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, fe drefnodd Nigel daith feiciau o amgylch pob un o orsafoedd tan Gogledd Cymru, yn ogystal â chymryd rhan yn y daith ei hun. Aeth yr arian a godwyd at elusen y Diffoddwyr Tân. Digwyddodd hyn yn ystod chwe diwrnod ym mis Medi. Roedd ymdrech Nigel yn ystod y digwyddiad corfforol hwn yn enfawr, o ran y gwaith corfforol a'r gwaith trefnu.

Dros y blynyddoedd, mae Nigel wedi trefnu a chymryd rhan mewn amryw o sesiynau golchi ceir, cefnogi noson tan gwyllt Gorsaf Dan Glannau Dyfrdwy, ac amryw o ddiwyddiadau codi arian eraill er mwyn cefnogi Elusen y Diffoddwyr Tân yn ogystal ag elusennau lleol eraill. Nid oes pall ar ei frwdfrydedd na'i ymroddiad i'w weithgareddau codi arian.

Yr ail wobwr

Rhodddwyd gwobr Diffoddwr Tân Ifanc y Flwyddyn i ddiffoddwr tân ifanc sydd wedi disgleirio a dangos proffesiynoldeb ac ymroddiad cymdeithasol mwy na'r arfer, yn ogystal â deall gwerthoedd craidd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru.

Eleni, rhodddwyd y wobwr i aelod o staff sydd wedi gadael y YFA yn ddiweddar ac sydd bellach yn Ymarferydd Diogelwch Tân Cymunedol - Heidi Sanderson.

Ymunodd Heidi a YFA Caergybi yn gadet 14 oed, ac yn ystod ei chyfnod gyda'r gangen datblygodd ei gwybodaeth a'i sgiliau, cyn penderfynu cychwyn ar yrfa yn gweithio i Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, fel Ymarferydd Diogelwch Tân Cymunedol ar Ynys Môn.

Ar ôl gadael y cadetiaid daeth Heidi yn hyfforddwr lleyg gyda changen Caergybi a chafodd ei chydnabod fel 'Cyflawnwr Ifanc y Flwyddyn' yng ngwobrau Plas Cybi yn 2008.

Fodd bynnag, oherwydd ymroddiad Heidi i YFA Caergybi, dychwelodd yno fel hyfforddwraig ac mae wedi gweithio gyda diffoddwyr tân lleol mewn ymdrech i osod esiampol i aelodau newydd y tîm.

Mae Heidi hefyd wedi rhoi ei hamser i helpu gyda rhaglenni eraill megis yr wythnos brofiad gwaith a phrosiect y Ffenics.

Mae Heidi yn enghraifft wych i bobl ifanc drwy ei chymuned a thu hwnt. Mae'n barod i helpu bob amser, ac mae wedi bod yn werthfawr tu hwnt wrth gynorthwyo i redeg yr YFA yng Nghaergybi.

Y drydedd wobwr

Mae'r wobwr i aelod o staff am gyfraniad arbennig gan aelod o'r staff gweithredol yn cydnabod unigolyn sy'n gweithio'n gyson ar lefel uwch na gofynion arferol eu swydd.

Mae Richard Westwood yn Rheolwr Gwylfa yn y Tîm Diogelwch Cymunedol ac mae wedi gweithio ar nifer o brosiectau dros y flwyddyn ddiwethaf, yn enwedig gyda gyrwyr ifanc a'u cyfoedion. Mae'r gwaith diogelwch ar y ffyrdd yn ceisio cynnwys ac addysgu plant a phobl ifanc ynglŷn â gwahanol elfennau ar ddiogelwch y ffyrdd, fel y gallant ddod yn gyfrifol wrth

ddefnyddio'r ffyrdd. Yn ystod y 12 mis diwethaf siaradwyd gyda dros 1,200 o bobl ifanc, yn ystod amrywiol fentrau y mae Richard wedi bod yn rhan hanfodol o'u trefnu.

Cynorthwyodd gyda Cherbyd Cyswllt Heddlu Gogledd Cymru, Suburu Impreza fu mewn gwahanol leoliadau ar draws Gogledd Cymru, er mwyn cysylltu gyda phobl ifanc i egluro sut y mae cyflymder, gwregysau diogelwch, ffonau symudol, diod, cyffuriau a phwysau gan gyfoedion yn cynyddu'r perygl o farwolaeth neu anafiadau wrth yrru, yn enwedig o fewn y grŵp oedran hwn.

Bu Richard yn arwain y trefniadau yn y digwyddiadau hyn a mynychodd hwy bob nos dros wyliau'r Pasg.

Mae Richard wedi chwarae rhan greiddiol hefyd yn trefnu ac yn cyflwyno'r Cynllun Addysg Moduron, sy'n bartneriaeth gyda Heddlu Gogledd Cymru, Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, Ymddiriedolaeth y GIG a Gwasanaeth Cyfiawnder yr Ifanc. Ei fwriad yw addysgu pobl ifanc yr ystyrir eu bod mewn perygl, neu sydd eisoes wedi bod mewn tor cyfraith yn ymwneud a cherbydau.

Yn ystod Wythnos Diogelwch y Ffyrdd, cynorthwyodd Richard mewn digwyddiad deuddydd lle bu nifer o asiantaethau partner yn cymryd rhan, a bu dros 140 o fyfyrwyr yn ymwneud â diogelwch y ffyrdd.

Bydd Richard yn aml iawn yn rhoi ei nosweithiau er mwyn rhoi mewnbyn gwerthfawr i'r rhai hynny sydd newydd basio eu prawf gyrru, ynglŷn â sut i gadw'n ddiogel a mwynhau gyrru am flynyddoedd i ddod, fel rhan o'r Cwrs Pass Plus Cymru.

Yn ogystal â hyn, mae wedi mynychu amryw o ddyddiau diogelwch ym MhentrePeryglon, ac mae hyd yn oed wedi llenwi rhan Siôn Corn yn Ffair Nadolig y ganolfan.

Dangosodd Richard ymroddiad a brwdfrydedd i wneud gwahaniaeth go iawn a lleihau nifer y damweiniau ffordd yng Ngogledd Cymru, a thrwy hynny, wneud Gogledd Cymru'n lle mwy diogel i fyw a gweithio ynddo, ac i ag ymweld ag ef.

Y Bedwaredd Wobr

Rhannwyd y wobr am gyfraniad arbennig gan aelod o'r staff cymorth rhwng dau unigolyn eleni. Mae'r wobr hon yn cydnabod unigolion sy'n gweithio y tu hwnt i'w dyletswyddau arferol ar ochr gefnogol y Gwasanaeth.

Mae Paul Chamberlain yn gweithio yn yr adran TGCh. Mae Paul wedi gwneud cyfraniad sylweddol i gwblhau'r rhaglen rhan 'A' Firelink dros y 3 blynedd diwethaf, sef system radio newydd y Gwasanaeth. Mae wedi gweithio ar lefel uwchlaw ei ddyletswyddau dyddiol ac arddangos lefel eithriadol o allu technegol. Mae hefyd wedi arwain Rhanbarth Cymru ar faterion mapio Fflyd, sydd wedi arwain at ateb cynhwysfawr i fater cymhleth. Mae wedi sicrhau fod buddiannau Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru'n dod flaenaf bob amser drwy gyflwyno system gyfathrebu ddiogel ac effeithlon i bob diffoddwr tan gweithredol.

Mae ansawdd gwaith Paul yn eithriadol ac mae'n rheoli nifer o gytundebau, gan gynnwys un sy'n cynhyrchu incwm i'r Gwasanaeth drwy rannu safle.

Mae Paul yn berson hynod gydwbybodol ac mae'n ymroi i roi gwasanaeth o'r ansawdd orau i Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru bob amser ac i'r gymuned y mae'n ei gwasanaethu.

Yr ail berson i dderbyn y wobr hon yw rhywun sydd wedi gweithio'n ddistaw ac yn gydwbybodol ar ran y gwasanaeth yn y gwaith o gynllunio a pherfformiad. Ymunodd Shan Morris gyda Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn ystod hen ddyddiad "Gwerth Gorau" fel swyddog Prosiect/Gwerth Gorau.

Ers hynny mae'n defnyddio'i meddwl dadansoddol craff i ddadansoddi deddfwriaeth arfaethedig a'i effaith posibl ar Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, ac mae wedi gweithio'n ddiflino er mwyn sicrhau ein bod yn dehongli'r gyfraith ac yn cydymffurfio â hi, yn enwedig yn ymwneud a materion perfformiad a rheoli. Mae wedi cynrychioli buddiannau'r Gwasanaeth ar sawl gweithgor gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac mae wedi creu tîm perfformiad sy'n darparu gwybodaeth y mae rheolwyr ei hangen er mwyn rheoli.

Eleni, ymgwymerodd Shan â'r cyfrifoldeb anodd o arwain y tîm Sicrwydd Gweithredol a aeth at Wasanaeth Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru i asesu eu systemau iechyd a diogelwch a hyfforddiant.

Y Bumed Wobr

Bwriad y wobr partner Diogelwch Cymunedol yw cydnabod gwaith asiantaethau partner neu gyrff cyhoeddus sy'n gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth gyda Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn eu hymdrech i gyflwyno negeseuon diogelwch cymunedol hanfodol ac i hyrwyddo amcanion sefydliadol tebyg.

Ym mis Chwefror 2008, cychwynnwyd cynllun peilot wrth i Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru ddefnyddio Gofal a Thrwsio Gwynedd a Môn i gyflawni archwiliadau diogelwch tân yn y cartref ar ran y Gwasanaeth.

Mae gan Gofal a Thrwsio gysylltiad uniongyrchol a chartrefi pobl ac mae hon yn ffordd wych i gyrraedd ein cynulleidfa darged a chynnig cyngor ac ymyrraeth am ddim iddynt, mewn ymgais iddynt gadw'n ddiogel rhag tân yn eu cartrefi.

Bydd aelod o staff Gofal a Thrwsio'n cynnal yr archwiliad diogelwch tân yn y cartref wrth gyflawni rhyw waith arall. Golyga hyn mai dim ond unwaith y bydd rhywun yn tarfu ar y preswlydd a chaiff fantais ychwanegol o wybod fod ganddo larwm mwg i'w amddiffyn.

Hyd yma, mae mwy na 3,000 o archwiliadau diogelwch tân yn y cartref wedi eu cyflawni gan Gofal a Thrwsio ar ran Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, a bellach, oherwydd llwyddiant cychwynol y cynllun hwn, mae siroedd eraill yng Ngogledd Cymru wedi cytuno i'r un cytundeb lefel gwasanaeth, a'r un a weithredwyd ddwy flynedd yn ôl yng Ngwynedd a Mon.

Y Chweched Wobr

Aeth Gorsaf Rhan Amser y Flwyddyn i'r orsaf sydd wedi arddangos ei bod yn darparu gwasanaeth proffesiynol ac effeithlon i'r gymuned leol, sy'n sefyll uwchlaw'r gweddill.

Enwebwyd criwiau o Brestatyn oherwydd eu hargaeledd, ymateb cyflym i argyfyngau a'r gwaith a wnânt yn y gymuned.

Yn ogystal â hyn, maent wedi cadw criw cyson o chwech, fel y bydd y peiriant ar gael o hyd, ac felly, gallant gynnig y gwasanaeth rhagorol y gall eu cymuned a Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru ddibyynu arno.

Mae aelodau o staff Prestatyn yn arbennig o weithgar yn y gwaith a wnânt gyda Chymdeithas y Diffoddwyr Tân Ifanc. Cynhelir cangen yn yr orsaf ac mae'n cyfarfod unwaith yr wythnos, ac maent wedi cymryd rhan mewn nifer o weithgareddau gyda'r cadetiaid dros y blynyddoedd y mae'r tîm wedi bod yn weithredol, megis penwythnos yr YFA, codi arian a mynychu cystadlaethau.

Mae aelodau criw Prestatyn hefyd yn weithgar wrth gefnogi diogelwch tan cymunedol, ac maen nhw, fel gorsafoedd tan eraill yn yr ardal, yn cynnal archwiliadau diogelwch tan yn y cartref. Hyd yma, maent wedi cynnal 500 o'r archwiliadau hyn eleni gan wneud cartrefi pobl Prestatyn yn fwy diogel rhag tân.

Y Seithfed Wobr

Aeth y wobwr am gyfraniad arbennig i'r iaith Gymraeg i David Lawson sy'n gweithio yng Ngorsaf Dân Conwy. Mae'n gydwytbodol fel Hyrwyddwr yr iaith Gymraeg ac mae'n gweithio i ddarparu cefnogaeth ac anogaeth i aelodau o staff sydd am ddysgu Gymraeg. Mae David yn eu helpu i ymarfer eu sgiliau iaith ac yn eu helpu i gyflawni llwyddiant ar Lefel 1 a 2 yn rhaglen CD iaith Gymraeg GTAGC.

Un dull y mae David yn ei ddefnyddio'n aml i sicrhau llwyddiant yw cynnal ymarferion yr orsaf a gwaith o ddydd i ddydd drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae David yn gosod esiampl fel Hyrwyddwr yr iaith.

Yr Wythfed Wobr

Aeth gwobr gorsaf lawn amser y flwyddyn i orsaf sydd wedi bod yn rhan o waith newydd ac arbennig iawn mewn partneriaeth gyda 'Chymunedau'n Gyntaf' yn eu hardal leol.

Mae Gorsaf Dân Bangor wedi bod yn gweithio'n agos gyda with Chris O'Neal a'i dim o Cymunedau'n Gyntaf dros y ddwy flynedd ddiwethaf.

Mae Maesgeirchen yn gymuned dai y tu allan i Fangor, sy'n cynnwys dros saith cant o drigolion, a mwyafrif y tai yn berchen i'r awdurdod lleol neu i Dai Eryri.

Mae gan y stad hanes hir o ymddygiad gwrth gymdeithasol a thanau wedi eu cynnau'n fwriadol. Yn hanesyddol, mae diffoddwyr tan wedi bod yn destun ymosodiadau, rhai llafar a chorfforol, yn ystod digwyddiadau, ac arweiniodd hynny at rwystro gallu'r criw i wneud eu gwaith, ond arweiniodd hefyd at roi aelodau o staff mewn perygl o ddioddef anafiadau difrifol o ganlyniad i droseddau ieuencid yn yr ardal.

Mae Chris O'Neal wedi llwyddo i ryngweithio gyda'r bobl ifanc ac egluro rôl y gwasanaethau brys yn y gymuned wrthynt, ac arweiniodd hynny at wella'r berthynas, nid gyda Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru'n unig ond gyda'r Heddlu ac asiantaethau eraill hefyd.

Yn ystod 2009 trefnwyd dyddiau aml asiantaeth yn ardal Maesgeirchen, gyda'r nod o adennill ysbryd cymunedol. Llwyddodd Chris a'i dim i sicrhau dros chwe mil o bunnoedd dros gyfnod o ddeuddeg mis ar gyfer y digwyddiadau hyn.

O ganlyniad i'r gwaith y mae criwiau Bangor wedi bod yn rhan ohono, ynghyd a chris a'i dîm, mae cymuned Maesgeirchen wedi manteisio o ostyngiad sylweddol yn nifer y digwyddiadau y bu'n rhaid i'r criwiau eu mynychu, ac maent wedi gweld perthynas fwy cadarnhaol o lawer gyda thrigolion y stad.

Oherwydd y bartneriaeth wych hon gyda Thîm Cymunedau'n Gyntaf ym Mangor, mae'r wobwr gorsaf lawn amser y flwyddyn yn mynd i Orsaf Dan Bangor.

Y Nawfed Wobr

Mae'r wobwr Cyflogwyr y flwyddyn yn cydnabod cyflogwr lleol sy'n rhyddhau staff yn aml i gynnal dyletswyddau diffodd tan yn y gymuned. Mae'r cyflogwyr hyn yn hanfodol er mwyn helpu i sicrhau fod peiriannau tân ar gael ar draws Gogledd Cymru.

Mae T J Roberts and Sons yn fusnes teuluol clos yn y Bala ac mae dau aelod o'r staff yn ddiffoddwyr Tân yn y Bala ac yn aml bydd y ddau ohonynt yn gadael y siop er mwyn mynychu digwyddiadau.

Mae'r Rheolwr Gwylfa o'r Bala, Mark Roberts wedi bod yn gweithio yn y siop gig ers 28 mlynedd, a bu'n ddiffoddwr tân am 16 mlynedd hefyd gyda'r system rhan amser yn y Bala.

Mae Ron Tustin yn rhedeg cwmni Gwasanaethu Nwy ac yn cyflogi dim ond un aelod o staff, Andy Price. Mae'n caniatáu iddo fynd at ddigwyddiadau yn ardal Conwy. Golyga hyn, pan fydd Andy'n ateb galwadau fod Ron yn colli ei weithlu cyfan a'i fod yn gorfod gweithio ar ei ben ei hun hyd ddiwedd y digwyddiad ac y bydd ei weithiwr yn dychwelyd. Mae Ron hefyd yn aildrefnu gwaith Andy er mwyn sicrhau ei fod yn yr ardal leol fel y bydd peiriant Conwy'n gallu cael ei hanfon allan.

Oherwydd bod Andy wedi mynychu digwyddiadau, mae Ron wedi colli busnes ac arian ar adegau, ond oherwydd agwedd gymunedol Ron yn helpu ei orsaf dan leol i ddarparu gwasanaeth lawn i'r gymuned, mae'n gweld hyn fel pris bychan i'w dalu er mwyn cadw'r trigolion lleol yn ddiogel rhag tân.

Y Ddegfed Wobr

Cyflwynwyd y wobwr hon i bedwar unigolyn sydd wedi dangos ymroddiad heb ei ail ac wedi gwasanaethu'r Gwasanaeth Tân ac Achub yng Ngogledd Cymru am y cyfnodau hiraf fel aelodau o'r system ddyletswydd rhan amser.

Mae'r pedwar sy'n cael eu gwobrwyo yn gweithio ar hyn o bryd fel Rheolwyr Gwylfa yn eu gorsafedd, ac mae'r pedwar wedi derbyn eu medalau am wasanaeth hir ac ymddygiad da.

Ymunodd Michael Evans a'r Gwasanaeth ym 1975 ac mae wedi treulio ei yrfa gyfan ym Mhwllheli.

Ymunodd Charles Brimecombe hefyd ym 1975 a threuliodd ei yrfa gyfan ym Miwmares.

Ymunodd Arthur Jones ym 1977 a threuliodd ei yrfa gyfan yn Abersoch.

Ymunodd Stephen Nevitt ym 1976 a threuliodd ei yrfa gyfan yng Ngorsaf Tân y Rhyl.

Cynhaliwyd raffl ar y noson er mwyn codi arian at ddwy elusen. Cododd y gwesteion £550 fydd yn cael ei rannu rhwng Tŷ Gobaith yng Nghonwy ac Elusen y Diffoddwyr Tân.

Dywedodd Dawn Docx, y Dirprwy Brif Swyddog Tân, "Cyflwynwyd y gwobrau i staff sydd wedi mynd gam ymhellach i ymdrechu fod Gogledd Cymru'n lle mwy diogel i fyw ynnddo. Rydym yn falch iawn o'n staff yng Ngwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru ac roedd y seremoni wobrwyo'n ffordd wych o dangos gwerthfawrogiad y Gwasanaeth i unigolion a thimau yn ogystal â defnyddio'r digwyddiad i godi arian at elusennau haeddiannol iawn mewn awyrgylch braf ac ymlaciol."

Atodiad 4

Dangosyddion Perfformiad Iaith Gymraeg Newydd – data ar gael o Ebrill 2011

Dangosyddion Perfformiad Iaith Gymraeg		Cesglir gan	Cesglir a gwirir gan	Adroddiad gan	Adrodd wrth	Cyfnod Adrodd	Pwynt Adrodd
1.	Niferoedd a % cyflwyniadau i ysgolion yng Nghymru	Addysgwyr Diogelwch Tân Cymunedol	Addysgwyr Diogelwch Tân Cymunedol	Dave Evans Rheolwr Diogelwch Cymunedol	Richard Fairhead Uwch Reolwr Diogelwch Cymunedol	Blynyddol	Ebrill/Mai yn dilyn diwedd y flwyddyn ariannol
2.	Niferoedd a % y plant sydd o ganlyniad i gyflwyniad wedi derbyn cyngor ar ddiogelwch tân drwy gyfrwng y Gymraeg.	Addysgwyr Diogelwch Tân Cymunedol	Addysgwyr Diogelwch Tân Cymunedol	Dave Evans Rheolwr Diogelwch Cymunedol	Richard Fairhead Uwch Reolwr Diogelwch Cymunedol	Blynyddol	Ebrill/Mai yn dilyn diwedd y flwyddyn ariannol
3.	Niferoedd a % yr archwiliadau diogelwch tân yn y cartref a gwblhawyd drwy gyfrwng y Gymraeg.	Unrhyw aelod o staff / asiantaeth bartner	Merryn Murray Gweinyddwr Tân RMS	Merryn Murray Gweinyddwr Tân RMS	Richard Fairhead Uwch Reolwr Diogelwch Cymunedol	Blynyddol	Ebrill/Mai yn dilyn diwedd y flwyddyn ariannol
4.	Niferoedd a % y staff sydd wedi llwyddo yn y profion iaith Gymraeg Lefel 1.	Yr Adran Sgiliau, Dysgu a Datblygu	Yr Adran Sgiliau, Dysgu a Datblygu	Gary Brandrick Rheolwr Datblygu Yr Adran Sgiliau, Dysgu a Datblygu	Ruth Simmons Prif Swyddog Tân Cynorthwyol	Blynyddol	Ebrill/Mai yn dilyn diwedd y flwyddyn ariannol
5.	Niferoedd a % y staff sydd	Yr Adran	Yr Adran	Gary Brandrick	Ruth Simmons	Blynyddol	Ebrill/Mai yn dilyn diwedd

	Dangosyddion Perfformiad iaith Gymraeg	Cesglir gan	Cesglir a gwirir gan	Adroddiad gan	Adrodd wrth	Cyfnod Adrodd	Pwynt Adrodd
	wedi llwyddo yn y profion iaith Lefel 2	Sgiliau, Dysgu a Datblygu	Sgiliau, Dysgu a Datblygu	Rheolwr Datblygu Yr Adran Sgiliau, Dysgu a Datblygu	Prif Swyddog Tân Cynorthwyol		y flwyddyn ariannol
6.	Niferoedd a % y staff a lwyddodd i gyrraedd Lefel 3 yn y Gymraeg.	Yr Adran Sgiliau, Dysgu a Datblygu	Yr Adran Sgiliau, Dysgu a Datblygu	Gary Brandrick Rheolwr Datblygu Yr Adran Sgiliau, Dysgu a Datblygu	Ruth Simmons Prif Swyddog Tân Cynorthwyol	Blynyddol	Ebrill/Mai yn dilyn diwedd y flwyddyn ariannol
7.	Niferoedd a % y staff sydd wedi eu hyfforddi yn y Gymraeg i'r lefel gymhwyster y penderfynwyd arni.	Yr Adran Sgiliau, Dysgu a Datblygu	Yr Adran Sgiliau, Dysgu a Datblygu	Gary Brandrick Rheolwr Datblygu Yr Adran Sgiliau, Dysgu a Datblygu	Ruth Simmons Prif Swyddog Tân Cynorthwyol	Blynyddol	Fel ag yr oedd ar 31ain Mawrth
8.	Niferoedd a % y staff sydd wedi derbyn hyfforddiant iaith Gymraeg.	Yr Adran Sgiliau, Dysgu a Datblygu	Yr Adran Sgiliau, Dysgu a Datblygu	Gary Brandrick Rheolwr Datblygu Yr Adran Sgiliau, Dysgu a Datblygu	Ruth Simmons Prif Swyddog Tân Cynorthwyol	Blynyddol	Fel ag yr oedd ar 31ain Mawrth
9.	Niferoedd a % y swyddi Cymraeg Hanfodol sydd gan bobl sydd gan sgiliau dwyieithog yn y swyddi hynny(i'r safon dynodedig).	John Franco Cynorthwydd Rheoli Data	John Franco Cynorthwydd Rheoli Data	Llinos Gutierrez-Jones Rheolwr AD	Ruth Simmons Prif Swyddog Tân Cynorthwyol	Blynyddol	Fel ag yr oedd ar 31ain Mawrth
10.	Niferoedd a % y swyddi sydd	John Franco	John Franco	Llinos	Ruth	Blynyddol	Fel ag yr

Dangosyddion Perfformiad Iaith Gymraeg		Cesglir gan	Cesglir a gwirir gan	Adroddiad gan	Adrodd wrth	Cyfnod Adrodd	Pwynt Adrodd
	yn Gymraeg dymunol a sydd gan bobl dwyieithog yn y swyddi hynny (i'r safon dynodedig)	Cynorthwydd Rheoli Data	Cynorthwydd Rheoli Data	Gutierrez-Jones Rheolwr AD	Simmons Prif Swyddog Tân Cynorthwyol		oedd ar 31ain Mawrth
11.	Perfformiad wedi ei osod yn erbyn targed sydd wedi ei fabwysiadu fel rhan o'r fframwaith dangosyddion perfformiad – targedau 2009/10 yw; Niferoedd a % y staff newydd sydd wedi llwyddo i gyrraedd Lefel 1 Niferoedd a % y staff sydd wedi cael eu dyrchafu a sydd wedi llwyddo i gyrraedd Lefel 2.	AD Yr Adran Sgiliau, Dysgu a Datblygu	AD Yr Adran Sgiliau, Dysgu a Datblygu	Llinos Gutierrez-Jones Rheolwr AD Gary Brandrick Rheolwr Datblygu Yr Adran Sgiliau, Dysgu a Datblygu	Colin Hanks Prif Swyddog Tân Cynorthwyol Ruth Simmons Prif Swyddog Tân Cynorthwyol	Blynyddol Blynyddol	Diwedd y flwyddyn ariannol Diwedd y flwyddyn ariannol
12.	Niferoedd a % y galwadau y deliwyd â hwy yn Gymraeg yn y Swyddfeydd Sirol ymhen cyfnod penodol – Wythnos 1af Mai a wythnos 1af Tachwedd yn flynyddol.	Gweinyddwyr y Sir	Gweinyddwyr y Sir	Rheolwyr Diogelwch y Sir	Colin Hanks Prif Swyddog Tân Cynorthwyol	Blynyddol	Ebrill/Mai yn dilyn diwedd y flwyddyn ariannol
13.	Niferoedd a % y llythyrau a dderbyniwyd ac a gyhoeddwyd yn Gymraeg gan Swyddfeydd y	Gweinyddwyr y Sir	Gweinyddwyr y Sir	Rheolwyr Diogelwch y Sir	Colin Hanks Prif Swyddog Tân Cynorthwyol	Blynyddol	Ebrill/Mai yn dilyn diwedd y flwyddyn

Dangosyddion Perfformiad Iaith Gymraeg		Cesglir gan	Cesglir a gwirir gan	Adroddiad gan	Adrodd wrth	Cyfnod Adrodd	Pwynt Adrodd
	Sir ymhen cyfnod penodol – Wythnos 1af Mai a wythnos 1af Tachwedd yn flynyddol.						ariannol
14.	Niferoedd a % y staff sydd gan sgiliau dwyieithog (i'r safon ddynodedig)	John Franco Cynorthwydd Rheoli Data	John Franco Cynorthwydd Rheoli Data	Llinos Gutierrez-Jones Rheolwr AD	Colin Hanks Prif Swyddog Tân Cynorthwyol	Blynyddol	Fel ag yr oedd ar 31ain Mawrth
15.	Niferoedd a % y swyddi yn y dderbynfa sydd wedi eu dynodi fel Cymraeg hanfodol a sydd gan bobl dwyieithog yn y swyddi hynny	AD	AD	Llinos Gutierrez-Jones Rheolwr AD	Colin Hanks Prif Swyddog Tân Cynorthwyol	Blynyddol	Fel ag yr oedd ar 31ain Mawrth
16.	Niferoedd a % y staff sydd yn gallu siarad Cymraeg – feslu adran, graddfa swydd, lleoliad gwaith.	AD	AD	Llinos Gutierrez-Jones Rheolwr AD	Colin Hanks Prif Swyddog Tân Cynorthwyol	Blynyddol	Fel ag yr oedd ar 31ain Mawrth
17.	Niferoedd a % y cwynion o ffynhonnell ar wahân i staff neu eu cynrychiolwyr am weithrediad y Cynllun iaith Gymraeg a % y cwynion y deliwyd â hwy, yn unol â'r safonau a osodwyd gan yr Awdurdod.	Ian Williams Rheolwr Cynnal Gweithredol	Ian Williams Rheolwr Cynnal Gweithredol	Ian Williams Rheolwr Cynnal Gweithredol	Colin Hanks Prif Swyddog Tân Cynorthwyol	Blynyddol	Diwedd y flwyddyn ariannol
18.	Niferoedd a % y cwynion gan aelodau o staff neu gynrychiolwyr am arferion ieithyddol.	Ian Williams Rheolwr Cynnal Gweithredol	Ian Williams Rheolwr Cynnal Gweithredol	Ian Williams Rheolwr Cynnal Gweithredol	Colin Hanks Prif Swyddog Tân Cynorthwyol	Blynyddol	Ebrill/Mai yn dilyn diwedd y flwyddyn ariannol

Dangosyddion Perfformiad laith Gymraeg		Cesglir gan	Cesglir a gwirir gan	Adroddiad gan	Adrodd wrth	Cyfnod Adrodd	Pwynt Adrodd
19.	Niferoedd a % yr asiantaethau a chontractwyr sydd yn derbyn arweiniad ar sut i gydymffurfio â'n Cynllun laith Gymraeg.	Pob Pennaeth Adran	Pob Pennaeth Adran	Pob Pennaeth Adran	Colin Hanks Prif Swyddog Tân Cynorthwyol	Blynyddol	Ebrill/Mai yn dilyn diwedd y flwyddyn ariannol
20.	Niferoedd a % y galwadau brys a ddeliwyd â hwy yn Gymraeg	Yr Ystafell Reoli	Rheolwyr Gwylfa (Gwirio yn unig - system yn casglu data)	Reg Davis & Victoria Abberley Dadansoddwyr perfformiad	Linda Roberts Rheolwr yr Ystafell Reoli	Blynyddol	Ebrill/Mai yn dilyn diwedd y flwyddyn ariannol

Atodiad 5

Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru

Cynllun Gweithleoedd Dwyieithog

Adroddiad ar ddiwedd y prosiect

Ebrill 2010

Prosiect:	Cymhwysiad mewn dau ran; Sefydlu Hyrwyddwyr iaith a chyflwyno dewis iaith yn ystod cyfarfodydd.	Diweddarwyd:	Chwefror 2010
Awdur:	Tracey Williams	Statws:	Rheolwr Cyfathrebiadau Corfforaethol
Cyfeirnod:		Fersiwn:	8/4/10

Amcanion:

Byddwn yn amlinellu ac yn rhoi'r prosiect ar gyfer y Cynllun Gweithleoedd Dwyieithog 2010-2013 ar waith mewn dwy ran - Sefydlu Hyrwyddwyr iaith a chyflwyno Dewis iaith mewn Cyfarfodydd. Dyma fydd y tro cyntaf i'r iaith Gymraeg gael ei hyrwyddo yn y gweithle ac rydym wedi cynnwys hyn yn y Cynllun iaith Gymraeg.

Credwn ein bod wedi bod yn llwyddiannus wrth roi hwb ymlaen i hyrwyddo'r iaith yn y Gwasanaeth Tân ac Achub, a'n bod hefyd wedi llwyddo i godi ymwybyddiaeth ymysg y staff, wedi ennyn brwdfrydedd, ac rydym yn barod i symud hyn yn ei flaen.

Felly, bwriad y project oedd ceisio dal sylw'r holl aelodau o staff ymhob sir yng Ngogledd Cymru, a rhoi'r cyfle i bobl gydweithio er mwyn gwella'r iaith. Mae ein adnoddau mewnol, megis ein mewnwyd ddwyieithog a roddwyd ar waith yn 2008, 'Y Fflam' ein taflen newyddion a'n dogfen wythnosol, 'Diweddariad y Prif Swyddog' wedi'n cynorthwyo i gydlynu'r prosiect hwn.

Targedau ar gyfer Sefydlu Hyrwyddwyr Iaith Gymraeg	Sut y llwyddom i gwrdd â'r targedau
Gwneud y strategaeth ddwyieithog yn fwy personol yn lleol.	Sefydlwyd 27 o Hyrwyddwyr i ddechrau, a chawsant arweiniad yn ystod Seminar Hyrwyddwyr lle'r oedd sawl siaradwr gwadd o asiantaethau eraill yn rhannu eu profiad hwy. Cafodd pawb a fynychodd fwg 'Tanwen' er mwyn hyrwyddo'r prosiect. Erbyn diwedd Mawrth, roedd 19 ohonynt yn cwblhau adroddiad misol a oedd yn rhestru eu gweithgareddau hyrwyddo. Roedd y Gwasanaeth wedi penderfynu o fallen llaw i gynnig cydnabyddiaeth o £250 yn flynyddol i'r hyrwyddwyr hynny a oedd yn cwblhau adroddiadau misol
Roedd staff yn ymateb yn well wrth dderbyn negeseuon gan gydweithwyr yr oeddynt yn gweithio gyda hwy yn ddyddiol	Mae sawl aelod o staff wedi manteisio ar y cyfle i ymfyn am help gan yr hyrwyddwyr, yn enwedig aelodau o staff yn y gorsafoedd rhan-amser.
Targedu staff newydd i sefyll y profion Lefel 1 a 2, sydd newydd ei roi ar waith yn y Gwasanaeth, a, chodi ymwybyddiaeth o'n Strategaeth Sgiliau Ieithyddol.	Ers sefydlu'r hyrwyddwyr bu cynnydd yn yr aelodau o staff a safodd brofion dysgu Cymraeg y Gwasanaeth (gweler tabl allbwn) – ac roedd nifer ohonynt wedi cael cefnogaeth gan y Hyrwyddwyr. Fel mentorau i aelodau o staff, mae'r Hyrwyddwyr yn gyfrifol am ddsbarthu bathodynau i ddysgwyr.
Mae sefydlu Hyrwyddwyr lleol yn ffordd o ddangos cefnogaeth gorfforaethol tuag at ddwyieithrwydd, ac mae'n ddatganiad o fwriad ar ran y Gwasanaeth.	Wrth sefydlu Hyrwyddwyr lleol, rydym wedi medru codi ymwybyddiaeth o'n strategaeth e.e. ennillodd un o'r Hyrwyddwyr wobwr am ei waith yn ein Dawns Gobrwyo'r Gymuned y flwyddyn hon.
Maent yn arddel eu cyfrifoldebau, ac yn awyddus i hyrwyddo'r iaith yn y gweithle.	Sefydlwyd cyfeiriad e-bost newydd i'r Hyrwyddwyr fel y bod modd anfon gwybodaeth atynt bob pythefnos gyda syniadau pendant ar sut i hyrwyddo, Gwnaed hyn gyda chymorth Coleg Llysfasi. Mae'r Hyrwyddwyr wedi dangos parodrwydd i hyrwyddo'r iaith. Yn naturiol, mae rhai yn fwy blaenweithgar nag eraill.
Wrth roi arweiniad yn lleol, meant yn	Manteiswyd ar bob cyfle posib i godi

ennyn hyder ymhlith y staff i siarad Cymraeg.	ymwybyddiaeth am yr Hyrwyddwyr ymhlith y staff, er enghraifft posteri, gwybodaeth ar y wefan, ac eitemau yn 'Niweddariad y prif Swyddog'
---	--

Targedau ar gyfer cynnig dewis iaith mewn cyfarfodydd penodol.	Sut y llwyddom i gwrdd â thargedau
Annog timau mewn lleoliadau amrywiol i gynnig dewis iaith yn ystod cyfarfodydd fel arfer da a ffordd o sicrhau y gall pawb gymryd rhan ac na fydd neb yn cael eu heithrio.	Trafodwyr y bwriad yma gyda aelodau o staff oedd yn gallu siarad Cymraeg. I ddechrau, y bwriad oedd terialu hny yn ystod un cyfarod yng Ngwynedd, ond ynn fuan iawn canfuwyd fod diffyg hyder wrth gadeirio cyfarfodydd yn gymraeg. Cynhaliwyd cyrsiau Gloywi iaith a chysiau ar sut i gadeirio cyfarfodydd yn Gymraeg, gyda chymorth Coleg Llysfasi, er mwyn rhoi mwy o hyder i'r staff.
Nid wrth gynnig gwasanaeth cyfieithu ar y pryd yn angenrheidiol, ond datblygu sgiliau'r cadeirydd sydd gan sgiliau iaith Gymraeg i fedru crynhoi trafodaethau ar gyfer pobl ddi-gymraeg, ac agor a chloi cyfarfodydd yn ddwyieithog.	Mae cyfieithydd ar y pryd ar gael, ac rydym wedi prynu offer mwyn cynnig y gwasaneth yma'n fewnol. Yn ychwanegol i'r cyrsiau uchod, mae llawlyfr cofnodion newydd wedi ei lansio ar gyfer staff sydd yn siarad Cymraeg, sydd yn cynnig cyngor ar sut i agor a chloi cyfarfodydd yn ddwyieithog, yn ogystal â rhestr o dermau. Rydym yn pwysleisio nad oes rhaid i'r Gymraeg a siaredir fod yn berffaith.

Perfformiad:

Eitem	Cost	Amserlen
Seminar Hyrwyddwyr	£495.66	Hydref 2009
Mygiau Tanwen	£405	Hydref 2009
Coleg Llysfasi Syniadau hyrwyddo mewn e-byst bob pythefnos	£600	Misol Hydref 2009- Mawrth 2010
Bathodynau dysgwyr, i'w defnyddio gan Hyrwyddwyr	£630	Tachwedd 2009
Llyfrau cofnodion i	£1375	Mawrth 2010

hyrwyddo cadeirio cyfarfodydd yn Gymraeg.		
Cyrsiau Gloywi Iaith a Chadeirio Cyfarfodydd yn Gymraeg.	£500	Chwefror2010
Lwfans i Hyrwyddwyr (6 mis wedi iddynt ddechrau)	£3375	Mawrth 2010
Offer cyfieithu ar y pryd	£5717	Chwefror 2010
Posters for Champions	Cost yn fewnol	Ionawr2010
	Cyfanswn £13097.66	

Newidiadau ac effaith:

Yn ystod y prosiect, digwyddodd newidiadau arwyddocaol a gafodd effaith ar y gwaith.

Yn ystod yr wythnosau cyntaf, cytunwyd y byddai'r hyrwyddwyr yn cael eu talu fel bod hyn yn deg ar y diffoddwyr tân rhan-amser sydd gan swyddi eraill llawn-amser. Cytunwyd i dalu £250 yn flynyddol i bob Hyrwyddwr, ac er mwyn cael yr arian yma, byddai'n rhaid iddynt baratoi adroddiad misol are u gwaith hyrwyddo.

Hefyd, death yn amlwg yn gynnar iawn y byddai cadeirio cyfarfodydd yn ddwyieithog yn galw am hyfforddiant. Dim ond canran fechan o staff a fanteisiodd ar y cyfle i gadeirio yn ddwyieithog – rydym felly wedi newid agwedd i bwysleisio ar ennyn hyder, a threfnu cyrsiau Gloywi Iaith a Chadeirio Dwyieithog

Cynnyrch a safon y Prosiect:

Ers sefydlu'r prosiect, sydd wedi digwydd ar adeg pan gafodd Cynllun Iaith Gymraeg y Gwasanaeth Tân ac Achub ei ddiwygio, mae proffil yr iaith Gymraeg yn y Gwasanaeth wedi cynyddu yn sylweddol, ac mae mwy o bwyslais ar ddysgu a defnyddio'r iaith, ac yna ar fesur gwelliannau. Mae nifer o'r staff wedi cymryd rhan yn ein rhaglen ddysgu CD ar gyfer dysgu Cymraeg, gan sefyll profion Lefel 1 a 2, a mynychu cyrsiau newydd:

Niferoedd y staff sydd wedi llwyddo ym mhrawf Lefel 1 ers 1 Ebrill 2009	163
Niferoedd y staff sydd wedi llwyddo ym mhrawf Lefel 2 ers 1 Ebrill 2009	71
Niferoedd y staff sydd wedi mynychu cyrsiau Gloywi iaith	22
Niferoedd y staff sydd wedi mynychu cyrsiau ar sut i Gadeirio'n Ddwyieithog.	11

Cynlluniau pellach yn dilyn y prosiect:

Yn dilyn y prosiect hwn, byddwn yn parhau ac ehangu'r ymgyrch i ddefnyddio Hyrwyddwyr i hybu'r iaith Gymraeg yn fewnol, mae cynllwynion ar y gweill i gynnal seminar arall y flwyddyn honne r mwyn denu mwy o hyrwyddwyr. Byddwn yn parhau i anfon e-byst gyda syniadau ar sut i hyrwyddo, gydag ymdrech benodol i ddilyn trywydd y gwaith cefnogol a wneir gan yr Hyrwyddwyr.

Ers Mehefin 2009, nid oedd Cyfieithydd mewn swydd, ac ers hyn mae'r swydd ddisgrifiad wedi newid i Cyfieithydd a Swyddog Cyswllt Iaith Gymraeg. Bydd unigolyn newydd yn y swydd o fis Mai 2010, yn adrodd wrth y Rheolwr Cyfathrebiadau. Disgwylir y bydd 40% o'r gwaith yn waith hyrwyddo'r iaith yn y Gwasanaeth.

Yn ogystal, y bwriad yw cynnig cyrsiau Gloywi Iaith i staff, fel bo'r angen, ac annog staff i ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfodydd mewnol.

Mae dwy elfen y project hwn yn rhan bwysig o'r Cynllun Iaith Gymraeg ar gyfer 2010-13, sydd yn cynnwys strategaeth sgiliau ieithyddol, a byddwn yn adrodd am ddatblygiadau'r cynllun yn rheolaidd wrth y Grŵp Gweithredol, yr Awdurdod Tân a Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

Byddwn hefyd yn parhau i rannu datblygiadau gyda'r gwasanaethau tân ac achub eraill yng Nghymru drwy'r Grŵp iaith sydd yn cwrdd yn rheolaidd.